Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 29 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaetol: Llywodraethu a Busnes, Uwch Swyddog Cyfrifol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaetol: Llywodraethu a Busnes, Uwch Swyddog Cyfrifol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Dyma'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddefnydd y Cyngor o'i bwerau gwyliadwriaeth o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Codau Ymarfer y Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â defnyddio'r pwerau hyn yn argymell y dylai awdurdodau lleol adrodd ar eu pwerau gwyliadwriaeth yn rheolaidd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn cydnabod yr adroddiad ac yn rhoi unrhyw sylwadau o ran ei gynnwys a'r ddogfen bolisi amgaeedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Pwyllgor yn gyfarwydd â'r Adroddiad Blynyddol ar Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a gyflwynir i'r Aelodau gyda chrynodeb o'r gweithgareddau a'r trefniadau llywodraethu yn y maes hwn.

4.2. O dan ddarpariaethau RIPA gall awdurdod lleol awdurdodi defnyddio ‘gwyliadwriaeth gyfeiriedig’ wrth arfer rhai o’i swyddogaethau gorfodi. Mae ‘Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig’ yn wyliadwriaeth gudd, a gynhelir fel rhan o ymchwiliad neu weithrediad penodol sy’n ymwneud ag atal neu ganfod trosedd, ac sy’n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson neu bersonau.

4.3. Mae lefel gweithgarwch RIPA, sy'n ymwneud â ‘chuddwylio’ yn hytrach na gwyliadwriaeth ‘agored’, wedi lleihau’n sylweddol yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf nes bod ychydig o guddwylio neu ddim o gwbl bellach yn digwydd. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau RIPA pan fetho popeth arall h.y. pan fo pob dull arall i gasglu tystiolaeth wedi’i ystyried a’i archwilio. Os bydd cais RIPA yn cael ei gyflwyno, bydd angen goresgyn rhwystrau cyfreithiol cyn y gellir ymgymryd â’r wyliadwriaeth sy’n cynnwys cael ffurflen gais manwl wedi’i chwblhau gan yr ymgeisydd, cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb gydag un o Swyddogion Awdurdodi’r Cyngor (aelod o’r Tîm Gweithredol Corfforaethol) a phresenoldeb ar gyfer cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Lys yr Ynadon. Beth bynnag yw’r broses, mae’r Cyngor wedi gweld lleihad yn y gweithgaredd hwn oherwydd bod ganddo ddulliau tryloyw eraill mewn byd lle mae cyrff cyhoeddus yn rhannu mwy o ddata nag erioed fel ffordd o fynd i'r afael ag achosion o dwyll a throseddau.

4.4. Ers cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol i’r Pwyllgor ddiwethaf, ni chynhaliwyd yr un gweithgaredd cuddwylio, ac mae hyn yn duedd sydd i’w gweld ar draws bob awdurdod lleol. Mae’r pandemig Covid-19 hefyd wedi cael effaith ar unrhyw allu neu angen i gynnal gweithgareddau o’r fath.

4.5. Y ddau brif faes y mae’r Cyngor yn fwy tebygol o fod angen derbyn awdurdodiad RIPA yw gwerthu tan oed a thipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae’n ofynnol i’r Cyngor ystyried dulliau llai ymwthiol o atal neu fynd i’r afael â gweithgareddau o’r fath fel gosod arwyddion neu weithio’n dryloyw gyda thafarnwyr a siopau trwyddedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’u dyletswyddau ar werthu alcohol.

4.6. Swyddfa’r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio yw’r corff rheoleiddio sy’n gyfrifol am oruchwylio pwerau ymchwilio gan awdurdodau cyhoeddus. Cynhaliwyd arolwg diwethaf y Cyngor gan un o Brif Arolygwyr y Comisiynydd, Graham Wright, ym mis Chwefror a Mawrth 2021 a chyflwynwyd copi o’r Adroddiad Arolygu hwnnw i

aelodau o'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2021 ac mae ar gael i aelodau yn yr adran Pwyllgorau ar wefan y Cyngor.

4.7. Mae Cod Ymarfer Cuddwylio ac Ymyrraeth ag Eiddo'r Swyddfa Gartref yn gofyn i'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer RIPA ddarparu adroddiad blynyddol i Aelodau Etholedig ar p'un ai yw polisi RIPA y Cyngor yn addas i bwrpas ac adrodd ar lefel y gweithgarwch cuddwylio. Cadarnhaodd yr arolygiad yn 2021 fod yr Arolygydd wedi adolygu Polisi RIPO'r Cyngor a dywedodd ei fod yn darparu cyngor ac arweiniad cywir, cyflawn ac ymarferol iawn i ymarferwyr. Diwygiwyd y polisi ychydig ar y pryd i gyd-fynd ag argymhellion a wnaed gan yr Arolygydd. Mae copi o'r polisi ynghlwm fel Atodiad 1.

4.8. Mae hyfforddiant diweddaru i Swyddogion Ymchwilio a Swyddogion Awdurdodi yn faes y mae'r Rheoleiddiwr yn awyddus iawn o'i weithredu; y ffordd orau i'w ddarparu yw mewn lleoliad wyneb yn wyneb gan fod angen gweithio drwy senarios ymarferol sy'n cael ei ddarparu orau mewn sesiynau rhyngweithiol wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022 ar gyfer swyddogion sydd angen bod yn ymwybodol o Bolisi a Gweithdrefnau'r Cyngor a'r ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas â phreifatrwydd y mae'r swyddogaeth eu hangen. Gwelodd yr Arolygydd yn 2021 y sleidiau arfaethedig a'r deunyddiau hyfforddi ac roedd yn fodlon eu bod o'r safon briodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r maes ymarfer hwn yn cefnogi llefydd mwy glân a diogel i fyw ac ymweld â nhw ac uchelgeisiau a blaenoriaethu amgylcheddol y Cyngor. Gall gweithgareddau twyllodrus, sy'n gallu effeithio ar refeniw a chyllidebau'r Cyngor, arwain at gymryd camau gwyliadwriaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Telir y costau o fewn yr adnoddau presennol, gan gynnwys y digwyddiadau hyfforddi, gan fod hwn yn cael ei baratoi a'i gyflwyno'n fewnol mewn modd pwrpasol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad a'r penderfyniad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Cyngor sy'n meddu ar bolisi cadarn a fframwaith llywodraethu ategol yn llai tebygol o dorri Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol rhywun. Gellir defnyddio tystiolaeth a geir drwy gydymffurfio â'r Ddeddf mewn achosion llys, ond efallai na fyddai modd dibynnu ar y dystiolaeth os yw wedi'i chael yn anghyfreithlon. Felly mae'n hanfodol bod staff y Cyngor yn dilyn y cyngor a'r polisi yn y maes hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig.